

BAVO

Adroddiad Effaith
Blynyddol
2017 - 2018



Dathlu
20 mlynedd
o BAVO
1997 - 2017

Cefnogi, grymuso, uwchsgilio a
chysylltu pobl fel y gallant chwarae rhan
fwy blaenllaw yn y gymuned

Rhagair y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd

"Aeth blwyddyn arall heibio a gallwn edrych ar yr hyn a gyflawnwyd gyda boddhad a balchder. Unwaith eto, rydym wedi bod yn hyblyg ac yn gydnherth ac wedi addasu ein ffyrdd o weithio yn sgil yr heriau a ddaeth gyda rhagor o ostyngiadau i'r cyllid craidd. Mae'n glod i waith diwyd ac ymroddiad ein tîm o staff ein bod wedi gallu parhau i wasanaethu aelodau a chymunedau heb darfu arnyh nhw. Rydym yn canmol y Bwrdd am ei weledigaeth a'i ymrwymiad wrth ddefnyddio cronfeydd a buddsoddi yn ein tîm gwasanaethu aelodau i sicrhau nad ydym yn amharu ar lefel nac ansawdd y gwasanaeth.

"Mae ein haelodau yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn bob dydd. Rydym yn eu cefnogi i fod y gorau y gallan nhw fod wrth ddarparu eu gwasanaethau a'u gweithgareddau yn eu cymunedau; yn sicrhau bod ganddyn nhw lais ar fyrdau partneriaeth; yn helpu gyda chyllido, cynllunio, AD, datblygu sgiliau neu gyflwyno gwirfoddolwyr newydd – ac rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn berthnasol trwy fonitro, gwerthuso, casglu adborth a gweithredu arno. Rydym wedi ymrwymo i'r System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO) felly rydym bob amser yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella ac addasu er mwyn diwallu anghenion newidiol.

"Trwy weithio gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru (cydweithrediad rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chynghorau Gwirfoddol Sirol eraill ledled Cymru), rydym wedi diweddarau ein fframwaith canlyniadau er mwyn i ni allu dangos yr effaith. Bydd y fframwaith hwn yn ein helpu i ddangos beth yr ydym ni (a'n haelodau) yn mynd i'w wneud i gefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

"O ran gwybodaeth, cyngor a chymorth, dechreuwyd ar y gwaith o wella ein gwasanaethau digidol, symleiddio ein cronfa ddata a systemau rheoli mewnlol ac edrych ar sut yr ydym yn cynnig cymorth ar-lein ar flaenau'r bysedd i'n haelodau. Dechreuodd llawer o'r gwaith paratoi eleni, gyda lansiad infoengine.cymru a gobeithio y bydd gennym wefan newydd, porth cyllid cenedlaethol ac adnoddau eraill yn 18/19.

"Yn ogystal â Cefnogi Trydydd Sector Cymru, mae ein partneriaethau eraill yn bwysig iawn i ni hefyd. Mae datblygu perthynas dda ag amrywiaeth o sefydliadau cymorth arbenigol a sefydliadau ymbarél cenedlaethol yn rhan allweddol o sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad gorau a mwyaf priodol ar gael i'r sector lleol. Rydym yn mynd ati i gyfeirio

sefydliadau at sefydliadau arbenigol fel Canolfan Cydweithredol Cymru, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Sported, Chwaraeon Cymru, Rhedeg Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Un Llais Cymru, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, Cyllidwyr, yr WCVA a llawer mwy, er mwyn i'n haelodau allu cyflawni eu canlyniadau gorau. Rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth barhaus.

"Tua diwedd y flwyddyn, daeth yn amlwg y byddai Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei chysylltu â daearyddiaeth bwrdd iechyd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (a elwir yn rhanbarth Cwm Taf ar hyn o bryd).

"20 mlynedd yn ôl symudwyd ymlaen o fod yn MGAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Morgannwg Ganol). Felly wrth inni gyrraedd ein huned flwyddyn ar hugain, edrychwn ymlaen at adnewyddu hen gysylltiadau a datblygu rhai newydd a manteisio ar gyfleoedd newydd ar yr ôl troed rhanbarthol newydd! Mae blwyddyn o drawsnewid o'n blaenau ac rydym wedi ymrwymo i eirioli dros ein haelodau lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd yn y trydydd sector yn ystod y broses drawsnewid.

"Yn olaf, hoffem ddiolch i'n holl gyllidwyr: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Gronfa Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Bae'r Gorllewin am weithio gyda ni, ein cefnogi ni a galluogi ein gwaith ni i barhau.

"Wrth gwrs, rydym hefyd yn diolch i'n haelodau a'n gwirfoddolwyr am aros gyda ni ac am yr holl waith yr ydych chi'n ei wneud yn eich cymunedau - maent yn lleoedd cyfoethocach o lawer o'ch herwydd chi."



Heidi Bennett
MBA, MBA, Aelod
Siartredig o'r CIPD
Prif Weithredwr



Mark Davies
Cadeirydd

Ymddiriedolwyr 2017/18

Steve Curry

Mark Davies (Cadeirydd)

Steve Driscoll

Les Jones (Is-gadeirydd)

Mari Major MBE

Clive Owen

Cllr Charles Smith

Cymoedd i'r Arfordir

Partneriaeth Pobl Ifanc Cwm Ogwr

Yellow Wales

The Court House, Maesteg

Pwyllgor Apêl Sefydlog Elusennol Ddinesig Pen-y-bont ar Ogwr

Gofal Galar Cruse Morgannwg

Aelod Cabinet, CBS Pen-y-bont ar Ogwr (Cyfetholedig) a Chanolfan Gymunedol Westward

Datganiad cenhadaeth

Ein diben yw cefnogi, annog a hyrwyddo datblygiad sector gwirfoddol a chymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n effeithiol ac yn effeithlon, yn wybodus ac yn ddylanwadol ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Gwerthoedd

Mae gwaith BAVO yn seiliedig ar gyfres o werthoedd sy'n helpu i bennu blaenoriaethau a'r dull gweithio cyffredinol. Rydym yn cydnabod bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywiol a bod gan bawb yr hawl i gyfle cyfartal ac i gyfrannu at eu cymuned.

Y canlyniadau yr ydym yn dymuno'u cyflawni yw:

- Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cryfach drwy ddarparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant a chyfleoedd dysgu, datblygu sgiliau a meithrin gallu;

- Cymunedau byrlymus ac amrywiol drwy gefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar, cyfle cyfartal ac amrywiaeth;
- Trydydd sector hyderus a dylanwadol, drwy eirioli dros roi llais i'r sector wrth lunio polisiau, strategaethau, cynnig atebion ar y cyd i faterion lleol a rhoi'r sector wrth wraidd prosesau cynllunio a chomisiynu lleol;
- Mwy o lais i ddinasyddion a chymunedau drwy alluogi defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr, grwpiau cymunedol a dinasyddion i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio arnyn nhw a'u bywydau;
- Trydydd sector cynaliadwy o ganlyniad i sefydlu partneriaethau cryf, gwella sgiliau gwirfoddolwyr a staff, adnabod cyfleoedd cydlynw a chysylltu ar gyfer cydweithredu yn y trydydd sector a rhwng sectorau.



CANLYNIAD:

Mwy o bobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ac yn cael budd o hynny.

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, amcangyfrifir bod 27%* o bobl yn dweud eu bod yn gwneud gwaith gwirfoddol; gan gyfrannu at wella'r gymdeithas yng Nghymru a bywydau pobl trwy gynnig cymorth unigol, neu drwy ddarparu gwasanaethau, gweithgareddau a chyfleoedd cymunedol sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni dyheadau pobl.

(*Ffynhonnell: Hyb Data WCVA 2016).

Cydnabyddir gan fudiadau gwirfoddol a'r cyhoedd mai BAVO yw'r gymdeithas i unigolion fynd ati i gael gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli, ac i gael eu cyfeirio neu euparu â'r cyfleoedd sydd ar gael. Ym mis Mehefin 2017, roeddem wrth ein boddau yn ennill ail achrediad y Nod Ansawdd 'Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr'.

Mae ein Tîm Gwirfoddolwyr yn helpu sefydliadau lleol i fod y gorau posib trwy roi arweiniad ar arferion gorau o ran recriwtio a rheoli, goruchwyllo, hyfforddi, ymgysylltu a chadw gwirfoddolwyr. Rydym yn cynnal Fforwm Rheoli Gwirfoddolwyr, sy'n dwyn sefydliadau ynghyd ac yn darparu cymorth cymheiriaid, diweddariadau cyfreithiol, gwybodaeth am wirfoddoli diogel ac arferion gweithio, a dysgu a rhannu ffyrdd o barhau i wella ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddolwyr lleol.

Buom yn parhau i gyfarfod yn unigol â phobl i drafod sut yr hoffent elwa ar wirfoddoli ac i gyfateb eu hanghenion, eu dyheadau a'u sgiliau unigol nhw â'r sefydliadau oedd eu hangen.

Gweithiwyd yn galed i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli hefyd, trwy gynnal digwyddiadau dathlu ac allgymorth, fel yr Wythnos Gwirfoddoli flynyddol a Gwobrau Cyflawniad Gwirfoddolwyr Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cydnabod ymrwymiad, talent ac effaith gadarnhaol gwirfoddolwyr lleol. Hefyd, cymerwyd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau i

ddenu unigolion na fyddan nhw fel arfer yn ystyried gwirfoddoli. Hyrwyddwyd gwirfoddoli fel modd o wella iechyd a lles personol, lleihau unigrwydd, gwella hyder, hunan-barch neu sgiliau sylfaenol a/neu effeithio'n gadarnhaol ar ragolygon prifysgol neu waith. Ymysg y digwyddiadau a gynhaliwyd, cafwyd ffeiriau swyddi, 'Wythnos y Glas' a digwyddiadau i fyfyrwyr, Sioe Pen-y-bont ar Ogwr, Eisteddfod yr Urdd, diwrnodau gwybodaeth i ofalwyr a boreau coffi.

Diolch i wirfoddolwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae llawer o brosiectau a gwasanaethau cymunedol wedi llwyddo i oroesi a pharhau i ddarparu gwasanaethau yng nghanol eu cymunedau lleol. Trwy wneud hyn, maen nhw'n ei gwneud yn haws i bobl cael y cymorth sydd ei angen yn y man iawn ac ar yr amser iawn. Maent hefyd yn gwella'u hymdeimlad eu hunain o les ac ymdeimlad pobl eraill o les, ac yn lleihau'r perygl o deimlo'n ynysig ac yn unig.

Pa effaith a gafwyd?

Stori Jan...

"Rwy'n gwirfoddoli yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn y dderbynfa ac yn y Sied Bwyd yn gweini a chludo prydau bwyd i gartrefi lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd amser sbar gen i, felly es i swyddfa Canolfan Wirfoddolwyr BAVO i drafod gwirfoddoli. Roeddwn i eisiau bod yn gynhyrchol, a churdd â phobl newydd mewn amgylchedd newydd a oedd yn wahanol iawn i fy swydd flaenorol - rhywbeth newydd!"

"Mae gwirfoddoli wedi fy helpu i wneud ffrindiau newydd ac wedi rhoi peth o'r hyder yr oeddwn i wedi'i golli yn ôl i mi. Mae wedi fy ngalluogi i ddefnyddio sgiliau a oedd gen i yn fy swydd flaenorol, a helpu fy hyder i drafod â phobl. Rwy'n teimlo fel aelod cynhyrchol o'r gymdeithas nawr, mae wedi rhoi ymdeimlad o werth a hunan-barch. Trwy wirfoddoli rwy'n sylweddoli ac yn gwerthfawrogi fy mod i'n gallu cyfrannu at y gymdeithas mewn modd cadarnhaol sy'n helpu eraill a mi fy hun, hyd yn oed ar ôl ymddeol."

"Awgrymodd Canolfan Wirfoddolwyr BAVO bethau imi na fyddwn wedi eu hystyried. Agorwyd drysau i mi, cefais fanylion cyswllt sefydliadau posibl a chyfleoedd gwirfoddoli nad oeddwn erioed wedi meddwl amdanyh nhw."

"Mae gwirfoddoli wedi fy helpu i ailystyried cael swydd ran-amser. Mae wedi fy atgoffa bod gen i sgiliau defnyddiol a phwysig nad oeddwn wedi'u defnyddio ers ymddeol."

Beth gyflawnwyd gennym...?

Ymatebwyd i **976** o ymholiadau gwirfoddolwyr.

Cynhaliwyd **423** o gyfweiliadau gwirfoddoli.

Lleolwyd **268** o wirfoddolwyr.

Cynorthwywyd **90** o sefydliadau i ymdrin â materion yn ymwneud ag arfer da ym maes gwirfoddoli.

Rhodddwyd cymorth i dros **312** o sefydliadau gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i dynnu sylw at eu cyfleoedd gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru.

Ymunodd **25** o sefydliadau â'n sioe deithio gwirfoddoli i ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr 2017.

Gwirfoddolwyr ifanc (14 – 25)

Cafwyd llawer iawn o bobl ifanc yn dymuno cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon a chafodd llawer o bobl ifanc eu paru â sefydliadau a oedd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb mewn cyfleoedd heriol a boddhaol ac rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol i geisio meddwl am gyfleoedd gwirfoddoli anhraddodiadol, fel gwirfoddoli digidol i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Gyda chymorth BAVO, dosbarthodd y Panel Grantiau leuenctid gwerth **£4,000** o gyllid i brosiectau a oedd yn syniad ac yn cael eu harwain gan bobl ifanc. Rydym hefyd wedi llwyddo i recriwtio pum person ifanc newydd i fod ar y panel, gan roi'r cyfle iddynt fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a thrafod ceisiadau am grantiau.

Beth gyflawnwyd gennym...?

Aeth **201** o bobl ifanc i gyfweiliadau Canolfan Gwirfoddolwyr BAVO.

Lleolwyd **105** o bobl ifanc yn wirfoddolwyr.

Cofrestrodd **77** o wirfoddolwyr ifanc newydd i raglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Rhodddwyd **128** o dystysgrifau i bobl ifanc ar raglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Roedd **71** o gyfleoedd newydd ar gael i bobl ifanc 14 - 25 oed.

Ar sail ffigurau Gwirfoddolwyr y Mileniwm a'r oriau a gyflawnwyd:

Cyflawnodd **63** o bobl ifanc **6,000** o oriau gwirfoddoli gwerth **£44,280**.

Pa effaith a gafwyd?

Stori gwirfoddolwyr ifanc...

"Rwy'n gwirfoddoli yn siop elusen Sefydliad Prydeinig y Galon. Rwy'n gwneud yr holl waith papur ar ddydd Sadwrn, yn glanhau'r siop, symud nwyddau, prisio eitemau, cylchdroi stoc, cadw llygad ar lawr y siop, gwasanaeth cwsmeriaid, cyfathrebu dros y ffôn ac â phobl yn y siop, gwaith papur a recriwtio gwirfoddolwyr.

"Mae gwirfoddoli wedi datblygu fy mhersonoliaeth i, wedi fy ngwneud i'n fwy hyderus. Rwyf i wedi meithrin sgiliau newydd ac wedi datblygu sgiliau nad oeddwn yn gwybod oedd gen i. Roeddwn i'n llygoden fach swil a nawr rwy'n llew yn rhuo!

"Mae fy ngwaith gwirfoddoli wedi helpu pobl eraill i ddysgu sgiliau newydd hefyd. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ac yn cael gweld sut mae'r arian a godir yn y siop yn mynd i ymchwil a thriniaeth clefyd y galon. Mae gwirfoddoli wedi bod yn un o brofiad gorau fy mywyd i!"



Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

CANLYNIAD:

Mae sefydliadau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gynaliadwy, yn gallu creu incwm ac yn gwneud defnydd gwell o adnoddau i ddarparu gwasanaethau lleol a gwella llesiant pobl.

Trefnwyd 10 cymhorthfa gyllid i roi cyfle i grwpiau lleol gwrdd yn uniongyrchol â rhai o'r prif gyllidwyr yn unigol. Roedd y Gronfa Loteri Fawr, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Sefydliad Lloyds Bank ymysg y cyllidwyr a ddaeth i BAVO. Fel aseswyr grantiau i gynlluniau cyllido eraill, gall staff BAVO ddarparu goruchwyliaeth, cyngor a gwasanaeth prawddarllen i aelodau sy'n gwneud cais am gyllid.

Darparwyd hefyd gymorth datblygu mentr gymdeithasol i amrywiaeth o sefydliadau a oedd yn ceisio amrywio sut y maent yn cynhyrchu incwm a bod yn fwy hunandibynnol. Rydym wedi helpu llawer o'r sefydliadau hyn i weld sut mae eu gweithgareddau yn cefnogi'r elfen o werth cymdeithasol yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sut y gallent helpu i rwystro pobl rhag teimlo'n ynysig ac yn unig yn eu cymunedau a hybu ymdeimlad o lesiant trwy eu gwasanaethau neu weithgareddau.

Gweithiodd BAVO gyda sefydliadau o bob maint ac ar gyfnodau datblygu amrywiol, gan gynnwys grwpiau o unigolion sy'n dymuno dechrau gwasanaeth newydd, a grwpiau llawr gwlad sefydledig a oedd angen diweddarau gweithred ymddiriedolaeth neu gymorth â cheisiadau cyllid, a sefydliadau cenedlaethol a oedd angen cyngor ar waith polisi, cyflogaeth, cyllid neu gyfraith elusennau. Mae ein tîm wedi cefnogi sefydliadau ac ymddiriedolwyr i fod yn ddiogel ac i gydymffurfio, gan gynnwys busnesau newydd a rhai sy'n dirwyn i ben – a phan fo pethau efallai'n mynd o chwith, ni waeth pa mor gymhleth neu sensitif, darparodd ein tîm wasanaeth cyfrinachol i aelodau.

Beth gyflawnwyd gennym...?

Ymatebwyd i **5,119** o ymholiadau.

Rhoddwyd cefnogaeth a chynghor penodol i'r ymddiriedolwyr ar **283** achlysur.

Ymatebwyd i **335** o ymholiadau ariannu penodol.

Darparwyd **20** o sesiynau e-frifio, bwletinau a chylchlythyrau.

Sicrhawyd **£963,561** o fuddsoddiad mewnol newydd ar gyfer gweithgareddau, cyfleusterau ac achosion lleol trwy ein gwasanaeth cyngor ar gyllid.

Dosbarthwyd gwerth **£18,900** o grantiau lleol i grwpiau lleol.

Galwodd yr aelodau ar BAVO i wneud gwaith mewnol, datrys problemau a chynlluniau adfer fel adolygiadau ac adroddiadau llywodraethu, anghytuno rhwng ymddiriedolwyr ac ymddiriedolwyr a staff, a chymorth ymarferol gyda chadw cofnodion a ffeilio cyfrifon, archwilio gwallau ariannol neu anghysondebau neu reoli prosesau personél (gwrando ar gwynion, ymchwiliadau, camau disgyblu ac ati). Hefyd, darparwyd gwasanaethau ymgynghori i aelodau ac asiantaethau eraill, fel Canolfan Cydweithredol Cymru a gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru.

Pa effaith a gafwyd?

Stori Eglwys yr Holl Saint...

Gwnaed gwaith atgyweirio ar gloch Eglwys yr Holl Saint ym Mhen-y-fai, diolch i arian o Gronfa Budd-dal Cymunedol Suncredit.



Gweinyddwyd hyn gan BAVO a ddarparodd cymorth i'r panel o gynghorwyr sir a chymuned. Targedwyd cyllid at sefydliadau sydd naill ai wedi'u lleoli yng nghymunedau Trelales, Pen-y-fai neu'r Felin Wyllt neu sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hynny, ac roedd y cyllid yn benodol ar gyfer gwaith a oedd o fudd i'r cymunedau bach hynny.

Dywedodd Jennifer Morgan, Warden yr Eglwys: "Mae cymaint o aelodau ac ymwelwyr ag Eglwys yr Holl Saint a phentrefwyr Pen-y-fai wedi sylwi ar weddnewidiad wyneb y cloch ar dŵr yr eglwys.

"Cafodd ei adfer i'w hen ogoniant i bawb ei weld, ei glywed a'i fwynhau. Rydym yn hollol ddioleghgar i BAVO a Phanel Suncredit am eu cymorth rhagorol ac am roi'r arian i ni allu ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol nôl ym 1902. Roedd wedi mynd â'i ben iddo ond mae'n edrych yn hardd erbyn hyn a gall pawb cael ei fwynhau am 115 mlynedd arall gobeithio."

Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

Mae ein gwasanaeth datblygu yn darparu cymorth llywodraethu ac yn helpu sefydliadau i nodi'r strwythur cyfreithiol mwyaf priodol a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu nodau. Mae rhai o'r rhain yn eithaf cymhleth gan fod cynifer o opsiynau, fel grwpiau anghorfforedig, elusennau cofrestredig, Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol, Sefydliadau Corfforedig Elusennol, Cwmnïau Buddiant Cymunedol, Ymddiriedolaethau Datblygu, Mentrau Cydweithredol a sefydliadau dielw/cwmnïau cyfyngedig drwy warant. Rhoddwyd arweiniad hefyd ar Drosgrlwyddo Asedau Cymunedol.

Ymysg yr aelodau a gofrestrodd yn Sefydliad Corfforedig Elusennol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Clwb Ieuencid y Felin Wylt, Calon Y Cwm a Techivity Bridgend.

Beth gyflawnwyd...?

Cafodd **15** o fentrau cymdeithasol wybodaeth, cyngor a chymorth llywodraethu.

Crëwyd **7** o wasanaethau / sefydliadau / mentrau cymdeithasol newydd.

Pa effaith a gafwyd?

Stori Cynllun Mentora a Mwy The Bridge...

Mae BAVO wedi darparu cyngor ar ddatblygu a chyllid i Gynllun Mentora a Mwy The Bridge ers sawl blwyddyn. Ym mis Ionawr 2018, aethant i gymhorthfa gyllid Plant Mewn Angen y BBC, ac yn sgil hyn cafwyd grant tair blynedd gwerth **dros £29,000** i ddarparu clwb ieuencid i frodyr a chwiorydd plant a phobl ifanc anabl.



Nod y clwb ieuencid yw rhoi cyfrwng iddyn nhw allu cysylltu â phobl ifanc eraill sy'n deall eu sefyllfa ac yn eu helpu i deimlo'n llai ynysig. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn teimlo emosiynau cymysg wrth i deuluoedd ymgodymu â'r heriau, gan fod pwyslais y gweithgareddau a'r sylw ar y plentyn anabl. Bydd y clwb ieuencid yn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth a dod i delerau â'u hemosiynau. Bydd yn eu galluogi i ddeall eu bod nhw'n ddilys ac nad ydynt ar eu pennau eu hunain ac yn help iddynt ffurfio cyfeillgarwch cadarnhaol a chryf ag eraill a gwella'u hunan-barch.

Dyweddodd Sara Grinnell, Swyddog Ymgysylltu Cynllun The Bridge: "Bydd y grant hwn yn galluogi Cynllun The Bridge i ddarparu gwasanaeth cymorth pwrpasol i bobl ifanc sydd â brawd neu chwaer anabl. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y plant a gaiff eu hatgyfeirio sy'n dod o deuluoedd ag anghenion cymhleth ac sy'n chwilio am gymorth ychwanegol. Hoffem ddiolch i BAVO am roi'r cyfle i ni eistedd i lawr gydag un o Swyddogion Grant Plant Mewn Angen i drafod syniadau ein prosiect a'n helpu ni i'w ffurfio'n iawn a chael cyllid."

Pa effaith a gafwyd?

Cymorth unigol i wneud cais i Gronfa Ymddiriedolaeth lechyd y Bobl...

Comisiynwyd BAVO gan Gronfa Ymddiriedolaeth lechyd y Bobl i ddarparu cymorth pwrpasol unigol i 10 grŵp gwirfoddol lleol. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi mai prin oedd nifer yr ymgeiswyr yn yr ardal ac roedd BAVO yn dymuno annog buddsoddiad yn y furdeistref sirol. Ein swyddogaeth ni oedd hyrwyddo'r wobwr a helpu grwpiau trwy broses Cyfnod 1. Ac os byddent yn cael eu gwahodd i Gyfnod 2, byddem yn helpu'r ymgeiswyr i baratoi cais trylwyr iawn i'r Ymddiriedolaeth. O ganlyniad i hyn, sicrhodd grwpiau gyfanswm cyfunol gwerth **£75,287** a helpodd i ddiogelu neu ehangu eu gwaith.



Un o'r grwpiau llwyddiannus oedd grŵp 'Shed Quarters' Men's Shed ym Maesteg a gafodd **£14,266** i brynu offer a chyfarpar. Nod y grwpiau Men's Shed yw mynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd dynion hŷn. Mae Shed Quarters yn cwrdd yn wythnosol i gefnogi ei gilydd trwy gyfeillgarwch a gweithio ar brosiectau ymarferol, gan gynnwys gwaith coed a ffotograffiaeth. Maent hyd yn oed wedi sefydlu band ukulele o'r enw 'The Shed Heads'.

Dyweddodd Les Jones, un o'r sylfaenwyr: "Roedd yn broses drylwyr. Ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heb anogaeth a chymorth ymarferol BAVO!"

Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

CANLYNIAD:

Mae sefydliadau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gymwys, yn hyderus ac yn gadarn wrth reoli eu sefydliadau, ac yn sicrhau y darperir gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion lleol.

Hyfforddiant

Eleni, cynigiwyd llawer mwy o hyfforddiant wedi'i deilwra i ateb galw penodol, gan gynnwys datblygu pecynnau hyfforddi newydd. Er hwylustod, hyfforddwyd ein staff i gyflwyno gweminarau.

Cefnogodd hyfforddiant BAVO ddatblygiad personol a phroffesiynol Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. I sicrhau trefn lywodraethu dda ac i helpu grwpiau i ddarparu datblygiad i'r gweithlu, trafodwyd meysydd fel 'Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan', Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle a Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig (ASIST). Cyflwynwyd hefyd hyfforddiant wedi'i gomisiynu ledled Cymru i weithluoedd gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol eraill, sefydliadau addysg ac eraill.

Cynhaliwyd **29** o weithdai 'Cyfeillion Dementia' mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer (wedi'i ariannu gan Fwrdd Iechyd PABM a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). Aeth **1,175** o bobl i'r rhain, sy'n nifer aruthrol. Cynhelir y gweithdai ymwybyddiaeth hyn yn rhad ac am ddim a'u bwriad yw newid canfyddiadau

Beth gyflawnwyd gennym...?

Cyflwynwyd **50** o gyrsiau BAVO.

Dysgodd **1,392** o bobl sgiliau newydd trwy hyfforddiant BAVO.

Barnodd **100%** o'r bobl a aeth ar gyrsiau BAVO eu bod yn dda neu'n rhagorol.

pobl o ddementia a gweddnewid sut mae pobl yn meddwl, yn gweithredu ac yn siarad am y cyflwr. I gyflawni'r buddion a'r cynaliadwyedd gorau, recriwtiwyd gwirfoddolwyr mewn ardaloedd lleol i fod yn 'Hyrwyddwyr Dementia' er mwyn parhau i ddarparu sesiynau codi ymwybyddiaeth yn eu cylchoedd

cymdeithasol a'u cymunedau lleol eu hunain. Roedd y sesiynau hyn ar gael i bawb, gan gynnwys disgyblion ysgolion uwchradd, staff meddygfeydd teulu a chynghorwyr cymuned lleol. Drwy hyn, cafwyd gwell ymwybyddiaeth o sut i ymdrin â rhywun sydd â dementia a'i gefnogi.

Roeddem yn falch iawn o gael ein comisiynu gan nifer o awdurdodau lleol y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ran eu Rhaglen Datblygu Gwledig ac adolygu prosesau arferion gorau ym maes rheoli grantiau.

Cyflwynwyd hyfforddiant hefyd i staff Swyddfa Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru gan helpu i ddatblygu dealltwriaeth o waith Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r sector.



Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig (ASIST)

Yn rhan o'n hymrwymiad i strategaeth a chynllun gweithredu hunanladdiad a hunan-niweidio y sir, parhawyd i ddarparu hyfforddiant ASIST rheolaidd trwy gyrsiau agored a sesiynau datblygu gweithlu wedi'u targedu. BAVO yw un o'r prif sefydliadau hyfforddi ASIST yng Nghymru, sy'n hyfforddi mwy o bobl ac yn cyflawni gwell canlyniadau nag unrhyw sefydliad arall.

Mae'r rhaglen sgiliau ymyriadau yn seiliedig ar y boblogaeth ac felly fe'i cyflwynir i drigolion, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector, y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Ein nod yw creu cymunedau mwy diogel o ran atal hunanladdiad trwy wella'r ymatebion i bobl mewn angen a thrwy gynyddu sgiliau a gallu pobl i wrthsefyll heriau.

Pa effaith a gafwyd?

Stori rhywun a gymerodd ran yn ASIST...

"Roedd yr hyfforddiant yn amhrisiadwy ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus wrth ymdrin â chleientiaid sy'n agored i niwed.

"Cyn hynny byddwn i wedi osgoi trafod a oedd rhywun yn ystyried hunanladdiad.

"Rwy'n berson llawer mwy sier erbyn hyn ac yn deall pwysigrwydd asesu'r sefyllfa mewn modd agored, gan ganfod pa gynlluniau sydd ganddynt etc er mwyn darparu'r cymorth cywir mor gyflym â phosib."

Beth gyflawnwyd...?

Cyflwynwyd **4** cwrs ASIST gan arwain at **66** o gynorthwyr cyntaf ar gyfer hunanladdiad.

95% o'r farn bod eu sgiliau cyfathrebu wedi gwella.

97% o'r farn bod eu gwybodaeth am gymorth cymunedol wedi gwella.

97% o'r farn eu yn gallu adnabod yn well yr arwyddion bod rhywun yn ystyried hunanladdiad.


93% yn fwy hyderus ynglŷn â siarad am hunanladdiad.

93% yn teimlo'n hyderus, yn barod ac yn gallu mentro at rywun yr oedden nhw'n bryderus yn ei gylch.

87% wedi defnyddio'r sgiliau atal hunanladdiad yr oedden nhw wedi eu dysgu.

Attitudes Survey

Mark on the line where you are



Trydydd sector hyddysg a dylanwadol

CANLYNIAD:

Mae gan fwy o sefydliadau trydydd sector lais ac maent yn gallu cyfrannu'n hyderus ac yn effeithiol at bolisiâu, cynllunio a datblygiadau gwasanaeth ac yn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn diwallu anghenion defnyddwyr.

Beth gyflawnwyd gennym...?

Ymgysylltiad â'r trydydd sector mewn **39** o grwpiau cynllunio strategol/gweithgorau.

Wedi hwyluso **14** fforwm lleol i rannu arferion gorau ac arloesedd.

Buom yn cydweithio â Chynghorau Gwirfoddol Sirol cyfagos ar ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ac yn arwain yr ymateb rhanbarthol i drefniadau uno Byrddau Iechyd.

Ymwelwyd â nifer o grwpiau partneriaeth gwasanaeth cyhoeddus a rhwydweithiau darparwyr a llwyddwyd i hwyluso nifer o fforymau trydydd sector. Cynigwyd safbwynt y trydydd sector yn y cyfarfodydd strategol hyn ac is-grwpiau amrywiol a chyfrannwyd at faterion trwy'r fforymau a'r rhwydweithiau. Cefnogwyd cynrychiolwyr y trydydd sector i gael eu lle eu hunain a llais uniongyrchol mewn partneriaethau strategol lle bo hynny'n bosib, gan gydnabod bod ein haelodau yn y sefyllfa orau i 'gynrychioli' safbwyntiau darparwyr y trydydd sector.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid i nodi proses briodol i ymgysylltu â gofalwyr a gwirfoddolwyr i ddylanwadu ar ddyfodol gwasanaethau gofalwyr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Eleni, bu BAVO yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu pwyslais ar atal a lles, ac yn cefnogi adolygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r trydydd sector. Anfonwyd arolwg allan a'i hyrwyddo, a chynhaliwyd grwpiau ffocws i roi cyfle i'r sector ddweud eu dweud ynghylch eu perthynas â BAVO a'u perthynas â'r awdurdod lleol. Nodwyd bod meysydd y mae angen i ni eu gwella a bod llawer o sefydliadau o hyd nad ydym yn cysylltu â nhw. Rydym yn edrych ar sut y gallwn gysylltu'n fwy â chymunedau lleol.

Hwylusodd ein Swyddog Datblygu ar Gamdefnyddio Sylweddau ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a chymorth cymheiriaid trwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl lleol. O ganlyniad i hyn, magwyd hyder cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan ar Fyrddau

Partneriaeth Cenedlaethol a dweud eu dweud ar sut mae Fframweithiau Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu a'u gwerthuso.

Cysylltodd ein Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl hefyd â'r awdurdod lleol i sicrhau bod lleoedd ar gael i'r trydydd sector o ran y Bartneriaeth Strategol Iechyd Meddwl a phob un o'i his-grwpiau.

Yn rhanbarthol, parhawyd i ymgysylltu â'r gwasanaeth iechyd a sicrhau bod gan y trydydd sector ran weithredol yn natblygiadau gwasanaethau mawr, gan gynnwys ail-lunio gwasanaethau iechyd meddwl aciwt y rhanbarth. Gwnaed llawer iawn o waith i sicrhau bod y trydydd sector, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cyfrannu at ddatblygiadau newydd.

Daethom hefyd â'r Gwasanaeth Diwygio Etholiadol i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal grwpiau ffocws i alluogi defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau anodd eu cyrraedd i rannu eu barn ar wleidyddiaeth, pleidleisio a democratiaeth. Targedodd yr ymgysylltiad holl sefydliadau'r trydydd sector, ond yn benodol y rhai sy'n cefnogi grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig, e.e. materion iechyd meddwl, digartrefedd, pobl hŷn, pobl ddi-waith ac ifanc, nad ydynt wedi'u cynrychioli'n dda yn aml neu nad ydynt yn rhan o brosesau democratig.



Iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

Gweithiodd BAVO gyda chlystyrau meddygon teulu i wella'r cysylltiad â darparwyr cymorth y trydydd sector i annog cleifion i wella'u hiechyd a'u llesiant eu hunain. Trwy gael eu cyfeirio at gymorth ataliol yn y gymuned.

Mae Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chymorth BAVO, yn cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd i gysylltu â chyllidwyr neu gyfrannu at ymgynghoriadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r bwrdd iechyd lleol (PABM).

Mae gan y Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant gynrychiolaeth uniongyrchol ar Fwrdd Iechyd PABM, y Cyngor Iechyd Cymunedol a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin. O ganlyniad i hyn, mae gan aelodau gysylltiad parhaus â chynllunio gwasanaethau ac ymgynghori arnynt. Rhoddodd y Fforwm gyfle i sefydliadau gael gwybodaeth gan Bae'r Gorllewin am y Grant Newid Er Gwell a Chyllid Gofal Integredig, gan arwain at ddyfarnu **£41,377 i 6** sefydliad lleol o'r trydydd a oedd yn gweithio'n benodol i wella canlyniadau iechyd a llesiant i ddinasyddion.

Rydym yn cyflogi Cydlynnydd Gofalwyr Rhanbarthol sy'n gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin, sy'n sicrhau y nodir ac y diwellir anghenion gofalwyr, trwy weithio'n agos gyda chanolfannau gofalwyr yn y trydydd sector.

Mae cyfraniad y trydydd sector at y meysydd hyn yn hanfodol, oherwydd yn ogystal â darparu arbenigedd, mae'r sector hefyd yn gallu adlewyrchu 'llais' amrywiaeth eang o'r gofalwyr maen nhw'n eu cefnogi. Mae ymrwymiad Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin i sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector ar flaen y ddarpariaeth i'w weld trwy'r ffaith bod rhyw **80%** o Gronfa Bontio Gwerthfawrogi Gofalwyr wedi'i ddyrannu i amrywiaeth o sefydliadau anstatudol.

Comisiynwyd BAVO hefyd gan Fwrdd Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin i fapio'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ac i edrych ar gysondeb, dyblygu a bylchau ledled siroedd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, ac mae'r Bwrdd yn gweithredu ar argymhellion yr adroddiad.

Mae gwaith partneriaeth arall y mae BAVO yn rhan ohono yn cynnwys camau atal cwympiadau, lle mae darparwyr gwasanaeth wedi cwrdd yn rheolaidd i ddatblygu hyfforddiant, arweiniad a gwefan wybodaeth.

Hefyd, cefnogodd a hyrwyddodd BAVO y Prosiect Treialu Afiechyd Cardiofasgwlaidd yn rhan ogleddol y fwrdeistref sirol, lle gwahoddwyd pobl rhwng 40 a 64 oed nad ydynt yn mynd i weld eu meddyg teulu yn aml, i asesiad ffordd o fyw â gweithiwr cymorth gofal iechyd cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig. Manteisiodd **920** o gleifion meddygon teulu ar hyn.

Yn dilyn llwyddiant cynllun blaenorol a sefydlwyd yng nghanol tref Maesteg yn 2016, daeth **5** cymuned newydd yn lleoedd mwy cyfeillgar i bobl â dementia fyw ynddynt. Porthcawl, Mynydd Cynffig, Y Pîl, Cefn Cribwr a Chorneli yw'r ardaloedd diweddaraf i gael eu cydnabod yn gymunedau sy'n deall dementia. Aeth staff, gwirfoddolwyr a chyflogaion yn y sefydliadau a oedd yn cymryd rhan o bob un o'r cymunedau i sesiynau codi ymwybyddiaeth cyfeillion dementia i'w helpu i nodi a chefnogi pobl a all fod â dementia, ac maen nhw'n gwisgo bathodynau a sticeri 'Cyfaill Dementia' erbyn hyn. Datblygwyd y prosiect hwn fel partneriaeth rhwng BAVO, Cymdeithas Alzheimer, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd PABM. Fe'i croesawyd gan drigolion, grwpiau a chynghorau tref a chymuned lleol.

Mae ein sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ffurfio'r fenter leol fwyaf erioed i greu gwell dealltwriaeth o sut mae dementia yn effeithio ar yr unigolyn. Nod y prosiect yw gweddnewid sut mae pob un ohonom yn meddwl am ddementia, ac ymateb i bobl â'r cyflwr hwn.



Partneriaethau effeithiol ac ymwneud â pholisïau

Camddefnyddio sylweddau a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalgwyr

Hwylusodd a chefnogodd BAVO ymgysylltiad defnyddwyr a gofalgwyr o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau â Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin trwy fforymau a rhwydweithiau lleol a rhanbarthol.

Cefnogwyd y Rhwydwaith 'Ymgysylltu i Rymuso' (e2E) rhanbarthol, sy'n ganolbwynt i ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ledled Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r fforwm yn rhoi dewis i bobl ddweud eu dweud am ddatblygiad y gwasanaeth ac yn cynnig cymorth cydfuddiannol i eraill ar eu taith i adferiad. Cydweithiwyd hefyd â fforymau ymgysylltu lleol ym mhob ardal leol a'u galluogi i gysylltu â'i gilydd i roi cymorth cymheiriad.

Cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o sut i gymryd rhan a dweud eich dweud am gamddefnyddio sylweddau a swyddogaeth y Rhwydwaith e2E a'r Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru (AWSUM). Aeth dros 50 o ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr ar daith gerdded a siarad 4 milltir ar hyd Bae Abertawe, a drefnwyd mewn partneriaeth â Phrosiect Domino WCADA. Roedd hyn yn gyfle i godi ymwybyddiaeth a recriwtio aelodau newydd i gefnogi fforymau ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth lleol.

Rhodddwyd cymorth i'r Rhwydwaith e2E ddatblygu a gweithredu cynllun hyfforddi i ddefnyddwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr a'u cysylltu â'r bartneriaeth 'Newid'

Pa effaith a gafwyd?

Stori Ross...

"Cefais gymaint o brofiad yn ystod fy amser gydag e2E, yn mynd ar gyrisiau ac yn helpu i drefnu digwyddiadau ac wedyn gymryd rhan ynddyn nhw. Gofynnwyd hefyd i fi fynd i'r cyfarfod hyfforddiant ar addysg atal camddefnyddio sylweddau, a bŵm yn gwrando ac yn mynegi fy marn ar sut mae pobl ifanc yn cael gwybod am beryglon sylweddau.

"Pan oeddwn i'n aelod, fe wnes i fagu hyder yn fy ngallu i helpu eraill sydd wedi cael problemau tebyg i fy rhai i. Ers hynny rwyf wedi cael fy nghyflogi'n fentor cymheiriad gan BAROD. Mae arna i ddyled fawr i'r Rhwydwaith e2E."

rhanbarthol ar gyfer datblygiad personol a chymorth adfer. Cydweithiwyd hefyd â rhieni sy'n cael anawsterau gyda chamddefnyddio sylweddau, a oedd wedi arwain at, neu a allai arwain at, effaith andwyol ar eu gallu i ddarparu diogelwch a chymorth da i'w plant.

Bu BAVO yn hwyluso ymgysylltiad a chymorth cymheiriad i ddefnyddwyr gwasanaeth yn annibynnol, trwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl lleol. Drwy hyn, magodd cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth yr hyder a'r sgiliau i gymryd rhan ar Fyrddau Partneriaeth Cenedlaethol a chyfrannu at sut y caiff Fframweithiau Llywodraeth Cymru eu gweithredu a'u gwerthuso.

Sut mae cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth?

Mae cymryd rhan yn galluogi a grymuso defnyddwyr gwasanaeth i ddweud eu dweud am y gwasanaethau a'r datblygiadau, a hefyd datblygwyd eu hyder a'r sgiliau unigol sy'n cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol yn eu hadferiad.

Cymerodd **3** aelod o'r Rhwydwaith e2E gamau cadarnhaol tuag at gyflogaeth ar ôl bod yn ddi-waith ers nifer o flynyddoedd.

Cyflwynwyd **4** cwrs hyfforddi a datblygiad personol, gan gynnwys: Sgiliau Pwyllgor, Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig, Velocity gyda NewLink Cymru ac Ymyriadau Byr ar Alcohol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymerodd **24** o unigolion ran mewn hyfforddiant a chwblhaodd rhai defnyddwyr gwasanaeth bob un o'r cyrsiau.



Iechyd meddwl

Mae BAVO yn cefnogi gwaith y trydydd sector gan gysylltu partneriaid â'i gilydd trwy'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyffuriau Alcohol ac Iechyd Meddwl (DAMHSN), a oedd yn cwrdd yn rheolaidd i rannu arferion gorau, ymdrin â phryderon a heriau sy'n wynebu sefydliadau darparu a'u defnyddwyr gwasanaeth ac annog cydweithrediad.

Gyda chydweithwyr iechyd, aethom i ddigwyddiadau cymunedol i ofyn barn sefydliadau, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am sut y dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol lunio gwasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol. Roedd digwyddiadau 'Dweud Eich Dweud' yn gyfleoedd gwirioneddol i bobl rannu eu profiadau, da a drwg, ac yn hollbwysig i uwch gynllunwyr wrando ar yr hyn fyddai wedi gwella'u profiad. Cafodd pobl ddylanwad uniongyrchol ar ffurf strategaeth leol iechyd meddwl yn y dyfodol.

Ynghyd â Materion Iechyd Meddwl Cymru, staff Gofal a Hafal, rhannwyd gwybodaeth â thrigolion i geisio ymdrin â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl trwy annog pobl

i siarad am y pwnc a chydabod Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

Rydym wedi cael **dros 7,000 o ymwelwyr a lawr lwythiadau** o'r wefan hunangymorth a ddatblygwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM, sy'n darparu canolbwynt ar gyfer adnoddau hunangymorth. Trafodir llawer o feysydd gan gynnwys iselder, gorbryder, hwyl a bwyd ac anhwylder straen wedi trawma.

Rhodddwyd cymorth hefyd i ddatblygu grwpiau cymorth iechyd meddwl lleol. Enghraifft o hyn yw 'Andy's Man Club' ym Mhorthcawl, sy'n tynnu dynion at ei gilydd i rannu profiadau ynghylch y ffordd orau o ymdrin â heriau meddwl ac i ddatblygu cyfeillgarwch. Rydym hefyd wedi helpu nifer o gynlluniau Men's Shed. Er nad yw'n ymwneud ag iechyd meddwl yn unig, mae'r anghyfarfoddd rhwng y rhywiau o ran marwolaeth drwy hunanladdiad i'w weld yn amlwg yn yr ystadegau – mae dynion dair gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad na menywod – felly mae cael grwpiau fel hyn yn hollbwysig i lesiant pobl ac i ddatblygu cymunedau cydnherth.

Prosiect 20 Cwm Llynfi

Nododd adroddiad Archwiliad Cydraddoldeb Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2013 fod gan bobl sy'n byw yng Nghwm Llynfi 20 mlynedd yn llai o ddisgwyliad oes o'i gymharu â gweddill Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gofynnwyd i BAVO arwain ymgyrch iechyd wedi'i seilio ar y boblogaeth yng Nghwm Llynfi (a elwir yn LV20). Daethom ynghyd â busnesau, cynghorwyr, Bwrdd Iechyd PABM, meddygfeydd, Iechyd Cyhoeddus, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru, Cymoedd i'r Arfordir ac, yn hollbwysig, drigolion lleol a grwpiau cymunedol. Bu ein prif bwyslais ar rymuso ac annog grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr i ddod o hyd o atebion i nodi beth fydd yn gweithio ac arwain ar hyn.

Mae enghreifftiau o'r gwaith yn cynnwys cydlynu Grŵp Llywio Cam-drin Domestig a hybu'r 'Ymgyrch Rhuban Gwyn' flynyddol sy'n gwahodd grwpiau o ddynion i sefyll a siarad yn erbyn traïs yn erbyn menywod. Darlledwyd cyfweiliad ar Bridge FM i hybu'r neges hon ynghyd â neges debyg a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gan sefydliadau gwirfoddol lleol, Tesco Maesteg a Meddygfa Bron-y-Garn.

Defnyddiwyd profiad helaeth Steve Brace, yr athletwr Olympaidd o Ben-y-bont ar Ogwr, a Stuart Davidson, Cyfarwyddwr parkrun Porthcawl, a chysylltwyd â Halo Leisure, Rhedeg Cymru, parkrun UK a chlwb rhedeg Yr Hen Blwyf, i gychwyn ail parkrun 5K y fwrdeistref sirol, a gaiff ei gynnal ym Maesteg. Cydweithiwyd hefyd i recriwtio

gwirfoddolwyr a llysgenhadon ac erbyn hyn caiff parkrun Maesteg ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr anhygoel. Mae **1,836 o bobl wedi cofrestru i**

gymryd rhan, gyda chefnogaeth **524 o wirfoddolwyr**, sy'n gwneud cyfanswm o **1,310 o oriau gwirfoddoli**.

Buom hefyd yn gweithio gyda'r gymuned, Coed Actif a Cyfoeth Naturiol Cymru ar dri llwybr rhedeg yn 'Ysbryd Coetir Llynfi'. Codwyd arwyddion ar gyfer y llwybrau erbyn hyn ac mae'r gymuned leol yn eu defnyddio'n aml. Rhodddwyd cymorth hefyd i lunio'n ffurfiol 'Grŵp Coetir Llynfi'; grŵp o wirfoddolwyr sy'n cadw llygad barcud ar y safle ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys creu cynefinoedd, rheoli llystyfiant a choginio yn yr awyr agored.

Mae siopau a sefydliadau ym Maesteg, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (Gorsaf Dân Maesteg), Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, staff llyfrgell Awen, meddygfeydd, a Halo Leisure i gyd wedi cyflawni sesiynau codi ymwybyddiaeth o ddementia.

Lluniwyd grŵp dan arweiniad y gymuned sy'n cwrdd yn fisol erbyn hyn i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn gwella 'Maesteg sy'n Deall Dementia'. Rhodddwyd cymorth i sefydlu 'Caffi Galw Heibio Lôn Atgofion' wythnosol a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr yng Nghaerau. Mae'n helpu i ymdrin ag unigrwydd ac unigedd, ac mae pobl sy'n byw â dementia yn mynd yno, sy'n rhoi seibiant i ofalwyr.



Cau'r bylchau: prosiectau ar y cyd

Cyfeillion Cymunedol

Mae Cyfeillion Cymunedol yn wasanaeth cyfeillio cyfrinachol, diragfarn ac am ddim i bobl dros 50 oed, sy'n recriwtio gwirfoddolwyr a'u paru â phobl hŷn mewn cymunedau. Syniad BAVO yw'r cynllun hwn a BAVO hefyd sy'n ei gydlyn. Parhaodd i redeg drwy gydol 2017 o ganlyniad i gymorth gan Fwrdd Iechyd PABM a'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r cynllun yn hollbwysig i ymdrin ag unigrwydd ac unigedd ein poblogaeth hŷn ac i helpu pobl i gadw'n iach ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Nodwyd ei effaith a'i ganlyniadau mewn adroddiad annibynnol gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol De Cymru.



Beth gyflawnwyd gennym...?

Paru **36** o bobl hŷn ynysig â chyfeillion gwirfoddol, gan gefnogi **87** o bobl.

Recriwtio **26** o gyfeillion gwirfoddol newydd.

Ychwanegu gwerth **7,200** o oriau gwirfoddoli ar draws y prosiect.

Darparu gwerth dros **£54,000** o oriau gofal gwirfoddoli ar y prosiect.



Pa effaith a gafwyd?

Stori Heather...

"Fy enw i yw Heather. Rwy'n 73 oed ac rwy'n byw gyda chlefyd Parkinsons. Weithiau yn ein bywydau mae angen math arbennig o gymorth arnom ni ond nad yw'n rhy ymwithiol. Dyma beth yw purpas Cyfeillion Cymunedol.

"Rwyf wedi cael fy mharu â gwraig o'r enw Pam. Mae ganddi bersonoliaeth gynnes, mae bob amser yn gwenu ac mor garedig a chefnogol. Os oes angen unrhyw beth arnaf neu os oes angen barn rhywun arall arnaf, mae ei chefnogaeth hi wrth law bob amser. Mae hi'n mynd â fi allan yn ei char i'r siopau lleol neu i wylïo'r môr yn dod i mewn neu weithiau rydym yn aros yn y tŷ yn sgwrsio. Mae hi'n berson twymgalon ac yn garedig iawn.

"Ar ôl rhai misoedd o'r cyfeillgarwch hwn, cefais wahoddiad i barti Nadolig Hyrwyddwyr Cymunedol yng Nghoetre-hen. Doeddwn i heb fod mewn parti Nadolig ers dros saith mlynedd,

ond gydag anogaeth Pam ac ar ôl gwneud y trefniadau teithio, cytunais i fynd. Does gen i ddim teulu ac rwy'n byw ar fy mhen fy hun, felly roeddwn i'n ansicr iawn o beth i'w ddisgwyl.

"O fewn munudau i gyrraedd roeddwn i wedi ymlacio'n llwyr gyda phaned o de yn fy llaw (mae'n gweithio bob amser). Roedd pawb mor garedig a chroesawgar, doeddwn i ddim yn teimlo fel y person 'newydd' ond yn teimlo fel mod i wedi cwrdd â phawb o'r blaen. Roedd yn anodd peidio ag ymuno yn ysbryd y parti, yn enwedig pan oedd y band yn chwarae carolau Nadolig ac roedd pawb yn cyd-ganu â nhw. Dyma pryd rwy'n teimlo colli fy niweddar ŵr Keith. Nadolig oedd ein hamser ni.

"Y parti cyntaf ers saith mlynedd ac rwyf wedi cyflawni cymaint. Ymuno yn y carolau Nadolig (heb grio). Rhoddodd yr hyder imi wneud pethau a mwynhau fy hun, ac mae'r diolch i fy Nghyfeillion Cymunedol. Mae Pam yn dal i ddod i'm gweld i bob wythnos a does gen i ddim syniad beth fyddwn i'n ei wneud hebddi!"

Cau'r bylchau: prosiectau ar y cyd

Lleisiau Lleol: Pan Fo Angen

Daeth ein prosiect Lleisiau Lleol i ben ar ôl pum mlynedd o gyllid y Gronfa Loteri Fawr. Ond rydym yn falch o ddweud y bu gwaddol a bod ein cynllun gadael wedi galluogi'r holl weithgareddau i gael eu hymgorffori yng ngwaith ein partneriaid a'u bod yn gynaliadwy y tu hwnt i'r cyllid.

Cefnogodd Lleisiau Lleol unigolion a chymunedau, yn arbennig grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig, i gael llais ar y materion sy'n effeithio arnynt. Galluogwyd cryfhau rhwydweithiau a gwella sgiliau pobl er mwyn iddyn nhw allu cyd-drafod a chynnal gweithgareddau ymgyrchu priodol. Hefyd, galluogwyd darparwyr gwasanaeth i weld pethau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a'u helpu i gydweithio i oresgyn y rhwystrau i'r bobl. Er enghraifft, datblygodd Every Link Counts, menter gymdeithasol dan arweiniad pobl ag anawsterau dysgu, ffilmau ar y cyd â Heddlu De Cymru i godi ymwybyddiaeth o 'Droseddau Cyfeillio' sy'n effeithio'n benodol ar grwpiau agored i niwed fel nhw. Datblygwyd ffilim ganddynt hefyd ar eu profiad nhw o gael mynediad at ofal iechyd i dynnu sylw at eu profiadau a'u pryderon personol wrth fynd i feddygfeydd neu wasanaethau iechyd eraill.

Datblygodd Cynllun Mentora a Mwy The Bridge ABFABB, y grŵp cymorth LGBTQ+ cyntaf yn y fwrdeistref sirol, sy'n endid annibynnol erbyn hyn. Datblygodd Materion Iechyd Meddwl Cymru y Grŵp Cymorth Hunangymorth ar Hunan-niweidio ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl nodi'r angen yn dilyn y rhaglen atal hunanladdiad a arweiniwyd gennym ni yn 2009.

Rhoddodd Gweithredu Dros Blant a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr gymorth wedi'i dargedu ar y cyfnod pontio ym mywyd gofalwyr sy'n oedolyn ifanc. Trwy Lleisiau Lleol, buont yn ymgyrchu, dylunio a chyflwyno Cardiau Gofalwyr er mwyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr o fewn y system addysg allu nodi pobl ifanc yn hawdd. Cododd hyn ymwybyddiaeth ac felly roedd gwell dealltwriaeth ohonynt ac ni chawsant



eu cosbi wrth geisio casglu presgripsiynau neu brofi anawsterau yn yr ysgol/coleg, er enghraifft.

Mae Cynghair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr a SHOUT/Age Cymru wedi cryfhau eu rhwydweithiau ac mae ei niferoedd wedi cynyddu. Maent wedi darparu llais cryf ar faterion fel hygyrchedd, gan gynnwys gwrthwynebu toriadau i'r Cynllun Bathodyn Glas, ffioedd parcio a thoriadau i wasanaethau eraill sy'n effeithio ar bobl hŷn ac anabl, fel toiledau cyhoeddus a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.

Unwaith eto, dangosodd gwerthusiad y rhaglen a gynhaliwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru effaith anhygoel y gwaith ar ddod â phobl at ei gilydd a mynd i'r afael â materion a'u gwnaeth yn fwy agored i niwed yn hytrach na chefnogi'u llesiant a'u hannibyniaeth. Rhagorwyd ar holl ganlyniadau'r prosiect ac roedd y Gronfa Loteri Fawr yn canmol y llwyddiannau yn fawr iawn.

Beth gyflawnwyd gennym...?

Ymgysylltodd **3,532** o unigolion â'r rhaglen.

Cafodd **1,272** o bobl hyfforddiant i wella'u gallu i leisio'u barn.

Gwrandawodd **288** o ddarparwyr gwasanaethau ar anghenion pobl.

Cafwyd cynnydd o **740%** yn aelodaeth partneriaid Lleisiau Lleol.

Cefnogodd/aeth buddiolwyr i **785** o ddigwyddiadau.

Dylanwadwyd ar dros **40** o bartneriaethau.

Pa effaith a gafwyd?

"Mae'r effaith yr ydym ni wedi'i chael yn lleol ar bobl anabl yn anhygoel. Mae gennym lais cryf erbyn hyn ac rydym yn parhau i frwydro dros ein hawliau. Mae anghenion y gymuned anabl wedi elwa'n fawr o'r prosiect hwn."

Mae ein llais yn cryfhau o ran nifer a bydd yn parhau i gael effaith yn y dyfodol."



Codi'r proffil

Beth gyflawnwyd gennym...?

Ymddangosodd **133** o erthyglau BAVO yn y cyfryngau lleol, ar radio lleol ac ar wefannau annibynnol.

Cafwyd **18,253** o ymweliadau ag www.bavo.org.uk.

Cofrestrodd **87** o sefydliadau neu wasanaethau lleol ar infoengine.cymru

Mae gwaith y trydydd sector; grwpiau cymunedol a gwirfoddol, grwpiau ffydd, mentrau cymdeithasol, a chwmnïau dielw, yn cefnogi'n uniongyrchol ddyheadau Llywodraeth Cymru yn ei 'Rhaglen Lywodraethu', 'Cymru Iachach', 'Ffyniant i bawb', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn cyflawni cynlluniau a blaenoriaethau ein hawdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd, y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac eraill ac rydym yn defnyddio cynifer â phosib o gyfarfodydd partneriaeth, allbynnau ac offer y cyfryngau i gyfleu'r negeseuon ac i sicrhau cydnabyddiaeth briodol o waith pob un ohonom.


Rydym yn defnyddio astudiaethau achos, storïau digidol, arolygon, sêr canlyniadau, asesiadau, tystebau ac astudiaethau gwerthuso annibynnol i'n galluogi i ddangos y gwerth a'r effaith y mae gwaith BAVO yn eu cael ar unigolion, cymunedau a gwasanaethau'r sector cyhoeddus, a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud iddyn nhw.

Trwy ein cyfryngau cymdeithasol, gwefan, sesiynau e-frifio, cylchlythyron a datganiadau i'r wasg, rydym yn codi proffil ein haelodau ac yn dangos y gwahaniaeth y mae ein trydydd sector lleol yn ei wneud wrth wella a chyfoethogi cymunedau a'r effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.


Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gefnogaeth barhaus y wasg a'r cyfryngau lleol yn cyhoeddi ein datganiadau wythnosol i'r wasg. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gweithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol.

Gweithiwyd mewn partneriaeth â Cefnogi Trydydd Sector Cymru i lansio infoengine.cymru. Offeryn yw hwn y gall pob grŵp cymunedol ei ddefnyddio i hyrwyddo ei waith trwy lwytho'i fanylion cyswllt a'r hyn y mae'n ei wneud i gronfa ddata syml y gall unrhyw un ei chwilio os oes angen cymorth. Caiff pob aelod ei dudalen ei hun ar y we sydd wedi'i diweddaru bob chwe mis i gadw'r adnodd yn fyw ac yn berthnasol.

Gweithgareddau BAVO yn y cyfryngau Erthyglau BAVO a ymddangosodd yn y cyfryngau lleol yn 2017/18 o'u cymharu â 2016/17



Gweithgareddau BAVO ar y cyfryngau cymdeithasol trwy Facebook a Twitter Ebrill 2017 - Mawrth 2018



Datganiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratol'r datganiadau ariannol cryno yn unol â'r argymhellion yn y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi ein barn i chi am gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn darllen yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail ein barn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cytuno ar y balansau a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol cryno a'r datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn yr elusen yn disgrifio'r sail i'n barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Bevan & Buckland

Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Tŷ Langdon, Heol Langdon
Abertawe
SA1 8QY

Dyddiad: 27 Medi 2018

Datganiad gan yr Ymddiriedolwyr

Nid y datganiadau ariannol cryno hyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 yw cyfrifon statudol llawn y Gymdeithas, ond maent yn cynnwys crynodeb o'r wybodaeth a gafwyd o'r cyfrifon blynyddol ar Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) a'r fantolen.

Efallai nad yw'r datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth fel bod modd deall materion ariannol yr elusen yn llawn. I gael rhagor o wybodaeth, dylid troi at y datganiadau ariannol llawn ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr; gellir cael copïau ohonynt drwy anfon cais i BAVO.

Mae'n rhaid i'r datganiadau ariannol llawn gael eu harchwilio'n allanol gan archwilydd annibynnol a derbyn adroddiad diamod.

Cafodd yr adroddiad a'r datganiadau ariannol llawn eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr ar 27 Medi 2018 ac maent wedi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac i'r Cofrestrydd Cwmniâu.

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

Mantolen

Ar 31 Mawrth 2018

	2018 £	2018 £	2017 £	2017 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau sefydlog diriaethol		237,920		250,900
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	92,027		226,526	
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,345,634		1,211,558	
	1,437,661		1,438,084	
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL				
Credydwyr yn daladwy ymhen un flwyddyn	77,932		122,108	
ASEDAU NET CYFREDOL		1,359,729		1,315,976
CYFANSWM ASEDAU NET		1,597,649		1,566,876
CRONFEYDD				
Cyfngedig: cronfeydd incwm		317,517		335,287
Anghyfyngedig: cronfeydd incwm				
Cronfeydd dynodedig – reffeniw	617,000		557,000	
Cronfeydd elusennol cyffredinol	425,212		423,689	
	1,042,212			980,689
Anghyfyngedig: cronfeydd cyfalaf				
Cronfeydd asedau sefydlog dynodedig		237,920		250,900
CYFANSWM CRONFEYDD YR ELUSEN		1,597,649		1,566,876

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

Datganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Cronfeydd anghyfyngedig		Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd	Cyfanswm Cronfeydd
	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Dynodedig £	2018 £	2018 £	2017 £
Incwm a chronfeydd gwaddol o:					
Weithgareddau masnachu eraill	126,481	-	-	126,481	148,588
Incwm o fuddsoddiadau	1,684	-	-	1,684	3,177
Incwm o weithgareddau elusennol	216,878	-	367,756	584,634	881,549
Cyfanswm yr incwm	345,043	-	367,756	712,799	1,033,314
Gwariant:					
Gwariant ar godi arian	2,687	-	-	2,687	2,169
Gwariant ar weithgareddau elusennol	199,968	-	392,945	592,913	924,449
Gwariant ar weithgareddau masnachu eraill	86,426	-	-	86,426	99,911
Cyfanswm y gwariant	289,081	-	392,945	682,026	1,026,529
Incwm/(gwariant) net cyn trosglwyddiadau	55,962	-	(25,189)	30,773	6,785
Trosglwyddiadau					
Trosglwyddiadau i gronfeydd cyfyngedig	(25,155)	-	25,155	-	-
Trosglwyddiadau o gronfeydd cyfyngedig	17,736	-	(17,736)	-	-
Trosglwyddiadau i gronfeydd dynodedig	(227,627)	227,627	-	-	-
Trosglwyddiadau o gronfeydd dynodedig	180,607	(180,607)	-	-	-
Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn	1,523	47,020	(17,770)	30,773	6,785
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	423,689	807,900	335,287	1,566,876	1,560,091
Cyfanswm y cronfeydd i'w dwyn ymlaen i'r cyfnod nesaf	425,212	854,920	317,517	1,597,649	1,566,876

Bridgend Association of Voluntary Organisations



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont

112 – 113 Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL

Ff: 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk

Rhif cwmni: 07691764 • Rhif cofrestru'r elusen: 1146543

Tachwedd 2018 • © BAVO

www.bavo.org.uk



Hoffai BAVO ddiolch yn arbennig i'n holl gynrychiolwyr yn y trydydd sector sy'n rhoi o'u hamser am ddim i fynd i gyfarfodydd strategol er mwyn sicrhau y clywir llais y trydydd sector.

Hoffem ni hefyd ddiolch i'n haelodau am eu cefnogaeth, anogaeth ac ymgysylltiad parhaus mewn cyfnod hynod heriol; ac am bob dim maen nhw'n ei wneud yn eu cymunedau.

Hoffem hefyd ddiolch i'n cyllidwyr:



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Caring Together
Western Bay
Health and Social Care Programme
Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorrlewin
Rhaglen fectyd a Gofal Cymdeithasol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board



Cefnogi Trydydd
Sector Cymru
Third Sector
Support Wales

